# CYD-GYFARFOD Y PWYLLGORAU DIOGELU'R CYHOEDD A'R AMGYLCHEDD A GOFAL CYMDEITHASOL AC IECHYD

Dydd Llun, 26 Medi 2016

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd A.P. Cooper (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
A. Davies, D.B. Davies, I.W. Davies, J.A. Davies, P.M. Edwards, D.C. Evans, W.T. Evans, I.J. Jackson, A. James, J.D. James (In place of W.G. Thomas), H.I. Jones, W.J. Lemon, D.J.R. Llewellyn, K. Madge, E. Morgan, B.A.L. Roberts, A.D.T. Speake, E.G. Thomas, G. Thomas, S.E. Thomas, D.E. Williams and J.S. Williams

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
K. Thomas, Y Rheolwr Diogelwch Cymunedol;
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin - 10.00 am - 11.20 am**

## 1. PENODI CADEIRYDD AR GYFER Y CYFARFOD

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL benodi'r Cynghorydd A.P. Cooper yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.**

## 2. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr W.G. Thomas, J. Williams, J. Tremlett [Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd], a T.J. Jones [Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ddiogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd].

## 3. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

## 4. DATGAN CHWIPIAID PLAID SYDD WEDI EU GWAHARDD

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch chwip.

## 5. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)

Nid oedd cwestiynau gan y cyhoedd wedi dod i law.

## 6. ADRODDIAD Y BWRDD CYNLLUNIO ARDAL YNGHYLCH STRATEGAETH A DATBLYGU CAMDDEFNYDDIO SYLWEDDAU AC ALCOHOL 2015/16

Croesawyd Caroline Phipps [Drugaid Cymru] a'r Uwch-arolygydd Claire Parmenter (Heddlu Dyfed-Powys) i'r cyfarfod. [Yn gynharach roedd yr Aelodau wedi achub ar y cyfle i ymweld â bws Drugaid.]

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i adroddiad y Bwrdd Cynllunio Rhanbarthol am y Strategaeth ynghylch Camddefnyddio Cyffuriau ac Alcohol a'i Datblygiad 2015/16,

a oedd yn rhoi sylw i ystod o feysydd, er mwyn rhoi gwybodaeth i aelodau a'u diweddaru o ran y trefniadau comisiynu presennol a'r gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a ddarperir. Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am

- yr amcanion strategol mewn perthynas â darparu gwasanaethau o'r fath, y trefniadau cyllido, a'r gwasanaethau/prosiectau oedd yn cael eu comisiynu;
- datblygiadau lleol a chadarnhad ynghylch y trefniadau llywodraethu a chynllunio oedd ar waith yn rhanbarthol.

Cadarnhaodd y Rheolwr Diogelwch Cymunedol, mewn ymateb i gwestiwn, fod swyddogion penodedig yn bod a oedd yn gyfrifol am fonitro contractau gyda'r holl asiantaethau gwasanaeth. Roedd y defnydd o Fws Drugaid yn cael ei groesawu, yn enwedig fel ffordd o ymestyn y gwasanaeth yr oedd yn ei gynnig i rannau mwy gwledig o'r sir.
Dywedwyd bod angen cymorth i ddod o hyd i waith ar bobl oedd â phroblemau cysylltiedig ag alcohol, os oedd yfed yn un o'r pethau oedd yn eu rhwystro rhag gwneud hynny, a bod angen cynnal ymgyrch mewn sefydliadau trwyddedig i fynd i'r afael ag yfed a chymryd cyffuriau.
Dywedodd cynrychiolydd Drugaid fod pobl â phroblemau cysylltiedig ag yfed neu gymryd cyffuriau yn gallu cael gwasanaethau cwnsela a bod cyllid Ewropeaidd wedi cael ei sicrhau yn ddiweddar ar gyfer ymchwilio i ffyrdd o gael unigolion o'r fath yn ôl i'r gwaith. Ychwanegodd y cynrychiolydd y byddai'n fodlon cynnwys y gwasanaeth mewn unrhyw ymgyrch mewn tafarn neu glwb a âi i'r afael ag yfed/cymryd cyffuriau.
Pwysleisiodd cynrychiolydd Heddlu Dyfed-Powys pa mor bwysig oedd gwybodaeth leol o ran mynd i'r afael â phroblemau cysylltiedig ag yfed a chymryd cyffuriau mewn cymunedau, yn enwedig gan fod y dirywiad cyffredinol yn yr economi hwyrol yn golygu bod yr Heddlu yn gweld cynnydd mewn trais cysylltiedig ag alcohol mewn lleoliadau domestig.
Mewn ymateb i gwestiwn am broblemau cyffuriau mewn ysgolion, dywedwyd wrth y Pwyllgor fod gan yr Heddlu 5 swyddog amser llawn yn gweithio ledled ysgolion Sir Gaerfyrddin, a bod y swyddogion wedi mynychu tua 1900 o sesiynau ar gyffuriau, alcohol, seiberfwlio ac ati. Hefyd roedd bws Drugaid yn ymweld ag ysgolion.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

## 7. ADOLYGIAD GORCHWYL A GORFFEN O WASANAETHAU TRÎN CAMDDEFNYDDIO SYLWEDDAU GAN Y PWYLLGOR CRAFFU DIOGELU'R CYHOEDD A'R AMGYLCHEDD - MONITRO'R CYNLLUN GWEITHREDU

Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad a fanylai ar y cynnydd oedd yn cael ei wneud mewn perthynas â'r argymhellion gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Pwyllgor yn dilyn adolygu'r gwasanaethau triniaeth camddefnyddio sylweddau yn 2013/14. Dywedwyd bod rhai o'r camau gweithredu'n dal i fynd rhagddynt ac yn cael eu cymryd gyda'r asiantaethau priodol. Mewn ymateb i gwestiwn dywedodd cynrychiolydd Drugaid fod y cynnydd mewn atgyfeiriadau i'r tîm camddefnyddio sylweddau yn dangos bod mwy o unigolion yn defnyddio'r gwasanaeth. Hefyd rhoddodd sicrwydd i'r aelodau, yn sgil mynegi rhai pryderon, fod cydnabyddiaeth yn cael ei rhoi i bwysigrwydd sicrhau bod y gwasanaethau oedd yn cael eu his-gontractio yn cael eu rheoli'n briodol. Dywedodd cynrychiolydd yr Heddlu y byddai

ei swyddogion yn ymweld ag unrhyw safle yr oedd pryderon yn ei gylch, ac y byddai unrhyw achos o droseddu'n cael ei drin mewn modd cyfatebol. Awgrymwyd y gallai'r holl Gynghorwyr elwa ar gael hyfforddiant ynghylch ymwybyddiaeth o gamddefnyddio sylweddau a ffyrdd o helpu'r Heddlu â gwybodaeth leol am gamddefnyddio cyffuriau ac alcohol.

**PENDERFYNWYD**

**7.1 Nodi'r cynnydd a wnaed a chymeradwyo'r cynllun gweithredu mewn perthynas â'r argymhellion gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn dilyn adolygu'r gwasanaethau triniaeth camddefnyddio sylweddau yn 2013/14;**

**7.2 Gofyn i'r Rheolwr Diogelwch Cymunedol drefnu seminar i'r aelodau ar gamddefnyddio cyffuriau ac alcohol.**

_________________________ ___________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**